Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Negeseuon Allweddol

O'r
Cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau 16
Chwefror 2023.

Derbyniodd a thrafododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf / adroddiadau canlynol:

- Cyflwynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru/2021 i'w gymeradwyo. Cafwyd trafodaeth ar yr argymhellion a'r themâu a chymeradwywyd yr adroddiad gan aelodau'r Bwrdd. Bydd yr adroddiad nawr yn cael ei anfon at LlC a'i gyhoeddi maes o law.

- Derbyniwyd y wybodaeth ddiweddaraf ar flaenoriaethau a gwaith Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, a gyflwynwyd gan Andrea Copper, Arweinydd Diogelu CPH. Rhoddwyd y wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â rhai o'r blaenoriaethau a nodwyd megis Atal Cam-drin Pobl Hŷn, ac ymchwil i eiriolaeth mewn cartrefi gofal a cham-drin dynion hŷn.

- Cyflwynodd yr aelod o'r Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol y themâu a'r materion a nodwyd yn eu Hadroddiad Blynyddol a'r wybodaeth ddiweddaraf ar eu rhaglen waith.

- Cafwyd trafodaeth arall mewn perthynas â'r Adolygiad Diogelu Unedig Sengl, y Polisi Rhanbarthol ar gyfer Uwchgyfeirio Pryderon a'r wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd gan is-grwpiau'r Bwrdd.